



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Craig y Don  
Clarence Drive  
Craig Y Don  
Llandudno  
Conwy  
LL30 1TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/01/2017

## Cyd-destun

Mae Ysgol Craig y Don yng nghyrchfan glan-môr Llandudno yng Nghonwy. Mae bron pob disgybl yn byw yn lleol, ac ambell un yn dod o'r ardal gyfagos. Mae 425 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 53 disgybl yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol 15 dosbarth un oedran, sy'n cael eu haddysgu gan 15 o athrawon amser llawn a phump o athrawon rhan-amser.

Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 94% o'r disgyblion o darddiad gwyn Prydeinig. Mae rhai disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel ei famiaith.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd yn Ionawr 2014 a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2011.

Mae'r gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Craig y Don yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,248 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,063 a'r isafswm yw £3,225. Mae Ysgol Craig y Don yn safle 54 o'r 55 ysgol gynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn dda
- Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn eithriadol o dda
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad â'u gwaith ac maent yn awyddus i ddysgu
- Mae addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda
- Mae athrawon yn darparu ystod effeithiol o brofiadau dysgu amrywiol sy'n bodloni anghenion bron pob disgybl yn llwyddiannus
- Mae ansawdd da y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion
- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli weledigaeth gref ar gyfer datblygu'r ysgol yn y dyfodol, sydd wedi'i seilio'n briodol ar godi safonau a sicrhau lles pob disgybl
- Caiff y weledigaeth ei chyfleu'n llwyddiannus wrth staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr
- Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio a chynorthwyo staff yn bwrpasol i wella eu harfer
- Mae aelodau staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm
- Mae llywodraethwyr wedi datblygu dealltwriaeth glir o'u rôl fel arweinwyr strategol
- Gwneir defnydd da o'r adroddiad hunanarfarnu i symud yr ysgol ymlaen
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i ymestyn profiadau dysgu a gwella safonau a lles disgyblion

## Argymhellion

- A1 Gwella medrau trin data mewn TGCh disgyblion cyfnod allweddol 2
- A2 Gwella presenoldeb
- A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen wneud dewisiadau annibynnol ynghylch beth maent yn ei ddysgu a sut

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae bron pob disgybl yn dechrau yn y dosbarth meithrin â medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi ei ddysgu ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda; maent yn caffael gwybodaeth yn briodol ac yn ei chymhwyso'n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae medrau siarad a gwranddo disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir ac maent yn awyddus i sgwrsio ag oedolion. Maent yn esbonio eu gwaith yn dda, gan ddefnyddio iaith addas, er enghraifft wrth ddisgrifio sut gwnaethant greu *collage* gan ddefnyddio siapiau mathemategol 2D neu wedi gwneud rocedi o glai. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir a hyderus ac maent yn awyddus i roi atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith ac arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da mewn dysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Defnyddiant ystod eang o strategaethau yn llwyddiannus i ddarllen geiriau anghyfarwydd a phennu ystyr. Mae disgyblion mwy abl yn darllen geiriau cymhleth gyda rhwyddineb a rhuglder. Maent yn rhoi sylw priodol i atalnodi ac yn amrywio goslef y llais a chyflymdra wrth ddarllen ar goedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn aeddfed a gyda diddordeb. Defnyddiant eu medrau'n briodol wrth gasglu gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml, yn sillafu'n gywir ac yn atalnodi'n briodol. Maent yn datblygu hyfedredd wrth ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n ddychmygus, ac yn dewis geiriau'n ofalus i ychwanegu diddordeb, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad gan y blaidd at y tri mochyn bach.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ar draws y cwricwlwm at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, maent yn gwneud nodiadau, yn cofnodi gwybodaeth benodol, yn cyflwyno dwy ochr dadl ac yn llunio casgliadau medrus ar fywyd a chyfnod Winston Churchill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynllunio, drafftio ac aiddrafftio eu gwaith yn llwyddiannus ac yn llunio copïau terfynol o ansawdd uchel. Mae llawysgrifen a chyflwyniad yn eithriadol o dda yn y ddau gyfnod allweddol ac mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo'n fawr yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gadarn am fondiau rhif ac maent yn datrys symiau adio a thynnu i 100 yn gywir. Maent yn casglu gwybodaeth am eu hoff anifeiliaid anwes ac yn cyflwyno eu canfyddiadau'n dda mewn graffiau bloc. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso eu dealltwriaeth o batrymau cymesur syml yn bwrpasol i dynnu llun cestyll tylwyth teg. Maent yn didoli gwrthrychau gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf ac yn cyflwyno eu gwaith yn gywir mewn diagram Venn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio unedau ansafonol a safonol yn gywir i fesur hyd, capasiti a phwysau. Maent yn cymhwyso eu medrau mesur yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft wrth wneud cacennau cri.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael gadarn ar fedrau rhifedd. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosu i ddatrys problemau llafar a phroblemau rhesymu rhifiadol. Mae llawer ohonynt yn trin ffracsiynau, degolion a chanrannau yn ddeallus. Maent yn cymhwyso eu medrau yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo nifer y bwydydd amrywiol wrth iddynt astudio'r Ail Ryfel Byd. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o ddulliau meddwl ac ysgrifenedig yn hyderus ac yn gywir i ddatrys problemau. Maent yn cofnodi a chyflwyno eu canfyddiadau yn systematig ac yn esbonio eu rhesymu yn glir, er enghraifft wrth ymchwilio i newidiadau mewn tymheredd yng Nghaerdydd ac effaith deunyddiau fel ynysyddion thermol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn TGCh. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio meddalwedd briodol ac yn dangos lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r llygoden a'r bysellfwrdd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio dyfeisiau llechen a chyfrifiaduron yn effeithiol i dynnu llunio a newid maint geiriau ar dudalen. Defnyddiant raglenni prosesu geiriau yn hyderus i gofnodi a chreu cerddi syml, gan wneud newidiadau i wella mynegiant neu wirio camgymeriadau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu a dehongli cronfeydd data a graffiau bar sy'n gysylltiedig â straeon tylwyth teg a hoff ffrwythau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o raglenni i dynnu llun pictogramau, graffiau bloc a siartiau bar. Defnyddiant raglenni modelu yn hyderus i efelychu a datrys problemau bywyd go iawn, er enghraifft wrth reoli tegau rhaglenadwy.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau mewn TGCh yn effeithiol ac maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 3 a 4 yn defnyddio rhaglenni a meddalwedd i ysgrifennu dyddiaduron diddorol, a chyfarwyddiadau ar sut i frwsio dannedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio technoleg yn hyderus i brosesu geiriau a gwneud cyflwyniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio fideos yn fedrus i greu a chyflwyno gwybodaeth am eu gwyliau haf, gwyliau Iddewig a'r Ail Ryfel Byd. Mae llawer ohonynt yn defnyddio taenlenni yn effeithiol i gasglu gwybodaeth am Gaerdydd, gan gynnwys llygredd môr ac amrywiadau mewn tymheredd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni modelu i safon uchel. Er enghraifft, trwy gwblhau Her Formula 1, mae disgyblion yn dylunio eu car 3D eu hunain ar liniadur, yn hysbysebu eu cynnyrch ac yn creu logo. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

defnyddio rhaglenni codio yn effeithiol i ddatblygu eu medrau datrys problemau a'u medrau creadigol. Fodd bynnag, nid yw medrau trin data disgyblion i lunio cronfeydd data priodol a'u dehongli wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd e-ddiogelwch. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran ennill medrau yn yr iaith Gymraeg. Maent yn ymateb yn gymwys i gyfarwyddiadau a chwestiynau ac yn defnyddio ystod gyfarwydd o ymadroddion yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar y gwaith yn y Cyfnod Sylfaen ac yn defnyddio geirfa a phatrymau brawddeg sylfaenol yn dda, er enghraifft wrth ateb cwestiynau am eu llyfr darllen.

Mae medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir i ddisgrifio cymeriadau o lyfrau cyfarwydd ac yn defnyddio amser y presennol a'r gorffennol yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn creu darnau o ysgrifennu estynedig i safon dda, er enghraifft wrth greu deialog am barti pen-blwydd a disgrifio eu taith i Gaerdydd.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd ar y deilliant disgwylidig wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y lefel uwch mewn llythrennedd wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg bob blwyddyn, ond yn is ar y cyfan mewn datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 50% is a'r 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y lefel uwch ym mhob pwnc fel arfer yn gosod yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae perfformiad disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos gwelliant cyson.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth nodedig ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill ar y deilliant a'r lefel ddisgwylidig ac uwch. Yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched. Yng nghyfnod allweddol 2 yn gyffredinol, mae merched yn tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn.

### **Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad â'u gwaith ac maent yn awyddus i ddysgu. Maent yn mwynhau'r ysgol, yn gweithio'n galed ac yn ymfalchïo yn yr hyn a wnânt. Maent yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn cynyddu eu hunanhyder ac yn cefnogi eu cynnydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i wella eu gwaith.



Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwerthfawrogi'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan y staff. Mae ymddygiad yn eithriadol o dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal a charedigrwydd tuag at bobl eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn foesgar. Maent yn siarad yn hyderus ag oedolion ac maent yn hapus i fynd at unrhyw aelod o staff os bydd ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall sut a pham y dylent ddilyn ffordd iach o fyw ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda. Fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu'r gallu i wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn datblygu eu rôl yn briodol. Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rôl weithredol mewn codi arian ar gyfer yr ysgol ac elusennau fel Plant mewn Angen a nyrsys McMillan. Mae'r pwyllgor eco yn weithgar o ran codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd arbed ynni ac ailgylchu gwastraff. Maent wedi cymryd rôl weithredol mewn gofalu am, a datblygu, ardaloedd yn yr awyr agored ac eleni, cafodd yr ysgol wobr Arian am ragoriaeth arddwriaethol yng nghystadleuaeth Llandudno yn ei blodau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rôl weithredol mewn gweithgareddau cymunedol ac maent yn ymfalchïo yn y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Enghraifft dda o hyn yw cysylltiad yr ysgol â'r grŵp henoed lleol ac eglwysi. Mae hyn yn helpu disgyblion i gael ymwybyddiaeth well o'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb wedi bod islaw presenoldeb ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu effeithiol sy'n bodloni anghenion pob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cyflawni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Bron ym mhob un o ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae cynllunio athrawon yn sicrhau bod cydbwysedd priodol o weithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a rhai wedi'u harwain gan ddisgyblion.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi cael ei ymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hon yn nodwedd gref, sy'n arwain at gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae rhaglenni ymyrraeth rhifedd a llythrennedd effeithiol yn cefnogi disgyblion targedig yn dda. Mae athrawon yn dechrau cynllunio ar gyfer, a gweithredu, agweddau ar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn briodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ymweliadau addysgol, ymwelwyr a gweithgareddau allgyrsiol yn cefnogi lles a medrau cymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon, coginio ac ymweliadau buddiol â chanolfannau'r Urdd yng Nghaerdydd a Glanllyn.

Mae safon y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn uchel. Mae staff yn creu ethos Cymreig eithriadol o gadarnhaol ac yn hyrwyddo'r iaith yn gyson. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd bron pob disgybl tuag at yr iaith. Trwy waith allgyrsiol, ymweliadau a phrofiadau i gystadlu mewn eisteddfodau, caiff disgyblion brofiadau diddorol i ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio chwedlau gwerin poblogaidd o Gymru fel Cante'r Gwaelod a Santes Dwynwen, yn ogystal ag arlunwyr o Gymru fel Kyffin Williams.

Mae cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn llwyddiannus o ran datblygu amgylchedd cytûn lle mae disgyblion yn dysgu gyda'i gilydd i ddeall pwysigrwydd goddefgarwch a pharch at ddiwylliannau ei gilydd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni yn briodol.

### **Addysgu: Da**

Mae addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth fanwl am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu a defnyddiant ystod addas o ddulliau i ysgogi diddordeb y disgyblion. Mae perthnasoedd gweithio da iawn yn bodoli rhwng athrawon, staff cymorth a disgyblion. Mae pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn.

Mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ar gyfer eu gwersi ac maent yn rhannu'r rhain yn dda â disgyblion i ddarparu diben clir ar gyfer y dysgu sy'n digwydd. Maent yn rhoi gweithgareddau yn eu trefn yn dda ac yn sicrhau bod dysgu'n symud ar gyflymdra priodol. Maent yn gofyn cwestiynau pwrpasol i atgyfnerthu ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae athrawon a staff cymorth yn y Cyfnod Sylfaen yn tueddu i roi gormod o gyfarwyddyd i ddisgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn llunio barnau cywir a dibynadwy ar berfformiad disgyblion. Maent yn rhoi adborth llafar clir ac adeiladol i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn sensitif, pan fydd angen, i gefnogi dysgu disgyblion. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn briodol ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ennill dealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae pob un o'r athrawon yn olrhain perfformiad disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod tasgau priodol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plant. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl a gwybodus ac yn gosod targedau clir ar gyfer gwella i ddisgyblion.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae'r siop ffrwythau yn gynnar yn y bore a drefnir gan aelodau o'r pwyllgor eco yn boblogaidd iawn ymhlith disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol yn ogystal â rhaglen chwaraeon eang ar ôl yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gydag ystod o asiantaethau arbenigol perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a seicolegwyr addysg. Maent yn cefnogi anghenion disgyblion sy'n agored i niwed yn llwyddiannus ac yn darparu arweiniad effeithiol ar gyfer rhieni.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu gweithgareddau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm fel addysg grefyddol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at bobl eraill. Dangosir hyn yn glir yn y ffordd ofalgar y mae disgyblion yn trin ei gilydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref yng ngwaith yr ysgol. Mae athrawon yn nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gyflym, yn darparu cymorth priodol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae staff yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys safbwyntiau rhieni pan gânt eu hadolygu. Mae system olrhain drylwyr yr ysgol yn dangos bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, lle mae staff yn trin disgyblion yn deg. Mae'n gymuned gynhwysol a chroesawgar iawn, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ei gwerthoedd craidd sy'n gonglfeini ei datganiad cenhadaeth, sef; parch, cyfeillgarwch ac ymdrech. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i ddelio'n effeithiol â rhagfarn o unrhyw fath ac unrhyw fwlio, pe bai'n codi. Caiff parch at amrywiaeth ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd eraill. Mae adeilad yr ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion yn briodol. Mae digon o le mewn ystafelloedd dosbarth i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae adnoddau o ansawdd da ar gyfer yr holl feysydd dysgu yn cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol iawn. Mae gan yr ysgol adnoddau arbennig o dda ar gyfer datblygu TGCh. Mae

staff wedi datblygu ardaloedd dysgu yn yr awyr agored yn greadigol i ddefnyddio'r lle sydd ar gael yn effeithiol. Mae athrawon yn gwneud defnydd llawn o'r rhain i ysgogi a chefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau disgyblion.

Mae arddangosfeydd yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at amgylchedd dysgu bywiog, cynhwysol a chroesawgar. Mae staff yn annog disgyblion i deimlo'n falch o'u cyflawniadau.

Mae safonau glanweithdra'n uchel ac fe gaiff adeilad a thir yr ysgol eu cynnal a chadw'n briodol. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer disgyblion.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gref ar gyfer datblygu'r ysgol yn y dyfodol, sydd wedi'i seilio'n briodol ar godi safonau a sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae wedi rhannu ei weledigaeth yn llwyddiannus â staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth a sefydlwyd yn ddiweddar yn darparu cyfeiriad strategol cryf ar gyfer yr ysgol.

Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio a chynorthwyo staff yn bwrpasol i wella eu harfer trwy raglen fonitro strwythuredig a thrylwyr. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiadau swydd clir sy'n adlewyrchu eu cyfrifoldebau yn gywir, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl mewn sicrhau gwelliant parhaus. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm. Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad athrawon, sy'n derbyn targedau priodol o heriol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol o'r ysgol ac mae'n adnabod y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Ers penodi'r pennaeth presennol, mae llywodraethwyr wedi datblygu dealltwriaeth gliriach o'u rôl fel arweinwyr strategol. Maent yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu erbyn hyn, ac maent yn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn drylwyr.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Er enghraifft, caiff cynllunio ar gyfer y fframwaith llythrennedd a rhifedd ei ymgorffori'n dda ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau ar draws yr ysgol, yn enwedig perfformiad disgyblion mwy abl.

### **Gwella ansawdd: Da**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r pennaeth a'r staff wedi sefydlu diwylliant o hunanarfarnu agored a gonest sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae ganddo broses effeithiol sy'n galluogi'r ysgol i nodi, monitro ac arfarnu ei pherfformiad yn llwyddiannus. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno ac arfarnol, ac mae'n rhoi darlun cywir o'r ysgol.

Ceir systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a chymryd camau effeithiol i weithredu yn unol â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad cymharol yr ysgol ac asesiadau athrawon yn ofalus, yn ogystal â chraffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi rheolaidd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda ac yn mynd i'r afael â gwelliannau yn gyflym ac yn llwyddiannus. Mae athrawon a staff cymorth i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses monitro, arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Defnyddir gwybodaeth yn dda i symud yr ysgol ymlaen. Er enghraifft, mae deilliannau camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i arfarniadau blaenorol yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd mesuradwy mewn meysydd targedig, fel sicrhau bod ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Mae rhieni a disgyblion yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu trwy lenwi holiaduron ac fe gaiff llywodraethwyr eu hysbysu'n llawn trwy adroddiadau manwl y pennaeth.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu. Mae'n ddogfen glir a chryno sy'n cynnwys nifer addas o flaenoriaethau i'w rhoi ar waith dros dair blynedd. Mae'r cynllun yn dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer camau gweithredu, a monitro ac arfarnu effeithiolrwydd yn glir. Mae cynlluniau diweddar wedi arwain at welliannau clir mewn safonau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac mae'n ymestyn profiadau dysgu yn llwyddiannus. Mae arweinwyr a staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni gan ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol, gwefan yr ysgol, cylchlythyrau, ac e-bost. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gwneud cyfraniadau ariannol gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, trwy ariannu adnoddau storio yn yr awyr agored, er enghraifft. O ganlyniad, daw llawer o rieni yn bartneriaid pwysig ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Trwy sefydlu ethos agored a chroesawgar, mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyngherddau, eisteddfodau a gweithgareddau yn y cartref lleol ar gyfer yr henoed ac eglwysi lleol. Mae'r profiadau hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithredu'n briodol yn eu cymuned.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wirfoddolwyr sy'n gwrandao ar ddisgyblion yn darllen. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu hunanhyder a diddordeb disgyblion mewn llyfrau. Mae'r heddlu a gweithwyr ieuchyd proffesiynol yn cefnogi rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn dda, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch a hylendid personol.

Sefydlwyd system gymedroli effeithiol gydag ysgolion eraill i lunio proffiliau pwrpasol a defnyddiol i helpu athrawon wrth iddynt safoni gwaith disgyblion. Ceir cysylltiadau buddiol â'r ysgol uwchradd leol. Mae'r rhain yn effeithiol o ran helpu disgyblion i drosglwyddo'n ddidrafferth rhwng un sector a'r llall ac o ran paratoi disgyblion yn briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

## **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys a phrofiadol i gyflwyno pob pwnc ac agwedd ar y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae cynorthwyr addysgu yn rhan bwysig o'r tîm ac fe gânt ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol, yn enwedig wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn grwpiau bach. Mae dysgwyr yn defnyddio staff yn effeithiol a gwnânt ddefnydd da o gryfderau ac arbenigedd unigol.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i staff wella eu medrau proffesiynol. Enghraifft nodedig o lwyddiant yw effaith yr hyfforddiant i athrawon ar reoli ymddygiad ar ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion a'i gilydd trwy gydol y dydd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu a chyfrannu at rwydweithiau dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill. Mae mentrau diweddar yn cynnwys rhannu arfer dda i wella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion a datblygu ystafelloedd dosbarth digidol. Hyd yn hyn, mae'r fenter rhifedd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y fenter ystafell ddosbarth ddigidol ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ofalus ac yn rheoli'r gyllideb yn llwyddiannus. Mae hyn wedi eu galluogi i fynd i'r afael â diffyg sylweddol a oedd yn bodoli ddwy flynedd yn ôl a sicrhau bod cyllideb gytbwys ar hyn o bryd. Gwnânt ddefnydd da o'r holl gyllid sydd ar gael, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â chynlluniau datblygu'r ysgol. Defnyddir y grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol, ac mae wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau a lles grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed a nodwyd.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6622121 - Ysgol Craig y Don

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	425
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	13.0
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	54	55	51	49
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	85.2	81.8	88.2	87.8
Chwarter meincnod	2	3	3	3
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	54	55	51	49
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	90.7	85.5	88.2	89.8
Chwarter meincnod	2	3	4	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	35.2	32.7	43.1	42.9
Chwarter meincnod	1	2	2	2
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	54	55	51	49
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	90.7	87.3	90.2	91.8
Chwarter meincnod	2	3	3	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	24.1	21.8	27.5	36.7
Chwarter meincnod	3	3	4	3
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	54	55	51	49
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	94.4	98.2	98.0	95.9
Chwarter meincnod	3	2	3	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	51.9	92.7	74.5	91.8
Chwarter meincnod	2	1	2	1

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deiliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

## 6622121 - Ysgol Craig y Don

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

425

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

13.0

Grŵp PYD

2 (8%<PYD<=16%)

### Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	58	56	50	52
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	86.2	80.4	88.0	88.5
Chwarter meincnod	3	4	4	4
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	58	56	50	52
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	87.9	80.4	92.0	90.4
Chwarter meincnod	3	4	3	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	46.6	41.1	50.0	44.2
Chwarter meincnod	1	2	2	3
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	58	56	50	52
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	87.9	83.9	92.0	92.3
Chwarter meincnod	3	4	3	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	46.6	41.1	58.0	51.9
Chwarter meincnod	1	2	1	2
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	58	56	50	52
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	93.1	85.7	96.0	90.4
Chwarter meincnod	2	4	3	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	43.1	46.4	50.0	46.2
Chwarter meincnod	1	2	2	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>



## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	98	95 97%	3 3%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	98	89 91%	9 9%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	98	96 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	98	92 94%	6 6%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	98	90 92%	8 8%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	97	90 93%	7 7%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	98	94 96%	4 4%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	98	93 95%	5 5%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	98	83 85%	15 15%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	98	91 93%	7 7%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	98	55 56%	43 44%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	98	80 82%	18 18%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafwyd llai na 10 o ymatebion. Ni ddangosir unrhyw ddata.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Mr Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Mr Roy James	Arolygydd Tîm
Mrs Rhian Jones	Arolygydd Tîm
Mr Jeremy George Turner	Arolygydd Lleyg
Mrs Gwenan Davies-Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Mr Iwan Jones (Pennaeth)	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.